Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Gwrandawiad cyn penodi – Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ebrill 2024

## 1. Cyflwyniad

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

**1.** Crëwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gynt, ar 1 Ebrill 2019, ar ôl i'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drosglwyddo o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol newydd Cwm Taf Morgannwg.

**2.** Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cwmpasu poblogaeth o tua 390,000 o bobl, mae ganddo gyllideb flynyddol o dros £1 biliwn ac mae'n cyflogi tua 12,500 o staff, y mae 70% ohonynt yn ymwneud â gofal uniongyrchol i gleifion. Mae'r Bwrdd yn darparu gofal integredig i gleifion ac yn darparu gwasanaethau gofal acíwt, canolraddol, iechyd meddwl, cymunedol a sylfaenol i bobl yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. At hynny, mae'n darparu ystod eang o wasanaethau rhanbarthol ac is-ranbarthol gan gynnwys llawfeddygaeth y galon a llosgiadau, llawfeddygaeth blastig i gleifion yn Ne-orllewin Lloegr, iechyd meddwl fforensig ar gyfer De Cymru a gwasanaethau anabledd dysgu o Abertawe i Gaerdydd yn ogystal ag ar gyfer ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

**3.** Darperir Gwasanaethau Gofal Sylfaenol drwy ymarferwyr cyffredinol, optegwyr, fferyllwyr cymunedol a deintyddion sydd i gyd yn gweithredu fel contractwyr annibynnol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn rheoli

Gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau a Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer carchar Abertawe.

**4.** Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe dri ysbyty acíwt sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau:

- Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mhort Talbot;
- Ysbyty Singleton yn Abertawe; ac
- Ysbyty Treforys yn Abertawe.

**5.** Mae hefyd nifer o ysbytai cymunedol llai a chanolfannau adnoddau gofal sylfaenol sy'n darparu gwasanaethau clinigol pwysig i breswylwyr y tu allan i'r tri phrif leoliad ysbyty acíwt.

# 2. Y broses o gynnal gwrandawiad cyn penodi

## Y broses

**6.** Cytunodd Llywodraeth Cymru a'r Senedd i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd, neu benodiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach ar y gwaith craffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn ogystal â thryloywder y broses honno.

**7.** Yn gyffredinol, mae gwaith craffu cyn penodi yn digwydd ar ffurf gwrandawiad cyhoeddus cyn penodi, gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, y pwyllgor perthnasol sy'n penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawiad cyn penodi.

## Gwrandawiad cyn penodi

**8.** Ar 19 Mawrth 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod Jan Williams wedi'i phenodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, yn amodol ar wrandawiad cyn penodi gyda'r Pwyllgor.

**9.** Cynhaliwyd y gwrandawiad cyn penodi ar 25 Ebrill 2024. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Pwyllgor.

**10.** I lywio'r gwrandawiad, rhoddodd Llywodraeth Cymru bapur briffio i ni ar y broses ("papur briffio Llywodraeth Cymru"), CV a datganiad personol Jan Williams

ynghyd â chopi o'r pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r ymgeisydd a ffefrir gwblhau holiadur cyn y gwrandawiad.

# 3. Y broses recriwtio

**11.** Cafodd y swydd ei hysbysebu ar wefan Llywodraeth Cymru ac mewn hysbysebion y talwyd amdanynt rhwng 24 Ionawr 2024 a 14 Chwefror 2024.

**12.** Cynhaliwyd sesiynau i randdeiliaid ar 7 a 8 Mawrth 2024. Roedd aelodau'r sesiynau i randdeiliaid yn gynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd, eu partneriaid a'u rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr gyflwyno eu hunain gan roi trosolwg byr o pam roeddent wedi gwneud cais am y rôl. Dilynwyd hyn gan drafodaeth agored 30 munud gydag aelodau'r panel.

**13.** Derbyniwyd saith cais. Argymhellwyd tri ymgeisydd i gael cyfweliad, ond tynnodd un ohonynt ei gais yn ôl cyn i'r cyfweliadau gael eu cynnal. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar 29 Chwefror 2024. Roedd y Panel Cynghori ar Asesu o'r farn bod un ymgeisydd y gellir ei benodi.

## Manyleb y swydd a'r person

**14.** Amlinellodd Llywodraeth Cymru rôl y Cadeirydd yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr. Roedd hyn yn cynnwys hysbysiad y gallai penodiad i rôl y Cadeirydd fod yn amodol ar wrandawiad cyn penodi, yn ôl disgresiwn y Pwyllgor.

**15.** Bydd y Cadeirydd yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethu effeithiol, am gynnal gwerthoedd y GIG, ac am ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid. Mae cyfrifoldebau manwl y Cadeirydd i'w gweld yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr.

# 4. Yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru

## Y cefndir

**16.** Jan Williams, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, yw Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd. Mae hi wedi cael nifer o rolau cyhoeddus uchel eu proffil ym maes iechyd, plismona a chyfiawnder troseddol, addysg a'r trydydd sector.

**17.** Dyma a nododd yn yr holiadur cyn penodi:

> *I was born and brought up in Swansea and my family home has always been in the City, irrespective of my place of work. I have decades of experience as a patient, visitor, unpaid carer and NHS worker, across Neath, Port Talbot and Swansea.*
>
> *I am a dedicated public servant and believe passionately in the power of public service as a force for good. I live and breathe NHS values and am committed to playing my small part in enabling the NHS at 100 to be a quality-led, agile and sustainable service in which the country can take great pride.*
>
> *Whilst the wider determinants of health lie outside the NHS, the health and care system impacts significantly on the conditions "in which people are born, grow, live, work and age." (WHO) The Swansea Bay Population Health Strategy offers a significant chance, working with partners, to improve the health, well-being and resilience of the population, and reduce health inequalities*

## Ein barn ni

**18.** Yn unol â'r canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd, ein rôl ni yw nodi ein barn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

**19.** Yn ystod y gwrandawiad cyn penodi, cawsom drafodaeth eang â Jan Williams, yr ymgeisydd a ffefrir. Roedd hyn yn cwmpasu ei phrofiad o weithio mewn sefydliadau eraill, gan gynnwys swyddi ym maes iechyd, plismona a chyfiawnder troseddol, a'r trydydd sector. Cadarnhaodd Ms Williams nad oedd ganddi unrhyw benodiadau eraill yr oedd yn credu eu bod yn golygu gwrthdaro buddiannau, neu y gellir eu hystyried eu bod yn golygu gwrthdaro buddiannau.

**20.** Buom yn siarad am yr angen am lywodraethu cryf a rheoli ariannol da, o ystyried bod y Bwrdd wrthi'n cael ei fonitro'n fanwl o ran rheoli ariannol. Cydnabu Ms Williams fod y Bwrdd wedi cyhoeddi diffyg ar ddiwedd 2023-24 a dywedodd ei bod am ddeall sut y daeth i'r diffyg, faint ohono oedd yn gylchol neu nad oedd yn gylchol. Wedyn, byddai am edrych ar y cynlluniau ar gyfer 2024-25. Dywedodd y byddai hefyd am edrych ar sut roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cymharu â byrddau iechyd eraill ac â'r arferion gorau, o ran y diffyg a gyhoeddwyd.

**21.** Gwnaethom holi Ms Williams ynghylch monitro gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn y bwrdd iechyd. Dywedodd ei bod wedi darllen adroddiad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar wasanaethau mamolaeth ac ymateb y Bwrdd, a bod materion drwy'r darn yn ymwneud ag ansawdd, diogelwch a chynaliadwy. Dywedodd fod proses adolygu annibynnol ar y gweill ac mai un o'i blaenoriaethau cyntaf fyddai monitro cynnydd yr adolygiad hwnnw.

**22.** Gwnaethom holi Ms Williams ynghylch ei hymrwymiad i hyrwyddo a brif ffrydio'r Gymraeg a'i barn am gydweithredu'n fwy agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, o ystyried y nifer mawr o gleifion yn ardal Hywel Dda sy'n defnyddio gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Dywedodd Ms Williams wrthym ei bod yn dysgu'r Gymraeg. Amlinellodd arferion yr oedd wedi'u rhoi ar waith yn ei rôl bresennol, megis mynediad at gyrsiau a hyfforddiant i staff, ac annog aelodau eraill o'r bwrdd i ddefnyddio'r Gymraeg. Cydnabu'r angen i sicrhau bod digon o staff wedi'u hyfforddi, neu bod cyfleusterau cyfieithu ar gael, i ddarparu gwasanaeth i'r bobl hynny sydd am gael eu gofal a'u triniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, ni waeth a ydynt yn gleifion Bae Abertawe neu Hywel Dda. Dywedodd fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi dyroddi cyfarwyddyd i Fae Abertawe a Hywel Dda i sefydlu cyd-bwyllgor a fyddai'n sicrhau y cydymffurfir â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a hefyd yn meithrin diwylliant fel y gallai pobl o'r naill fwrdd iechyd neu'r llall gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg pe dymunent hynny.

**23.** Gwnaethom holi ynghylch blaenoriaethau cynnar Ms Williams ar gyfer ymdrin â'r galw cynyddol byth ar wasanaethau iechyd. Dywedodd wrthym y byddai'n ystyried defnyddio'r adnoddau presennol oherwydd y cyfyngiadau sy'n wynebu'r GIG ar hyn o bryd a'r angen i ddal ati. Siaradodd wedyn am bwysigrwydd helpu pobl i helpu eu hunain, gan ddefnyddio'r enghreifftiau ynghylch sgrinio am ddiabetes math 2 ac am ganser y coluddyn. Aeth ymlaen i ddweud mai un o rolau'r Bwrdd oedd meithrin a chynnal partneriaethau strategol oherwydd mai ychydig iawn y mae'r GIG yn ei wneud ar ei ben ei hun ac na ellir helpu pobl i fod yn iach heb amrywiaeth o bartneriaethau ehangach. Gwelodd fod sicrhau bod hyn yn digwydd yn rhan o'i rôl hi.

**24.** Yn olaf, buom yn siarad am bwysigrwydd sicrhau diwylliant sy'n annog staff, cleifion, teuluoedd a'r cyhoedd i godi pryderon. Dywedodd Ms Williams fod ymgysylltu â chleifion unigol, teuluoedd a chymunedau wedi bod wrth wraidd ei meddylfryd drwy ei phrofiad cyfan, ac er bod deddfwriaeth wedi gosod dyletswydd gonestrwydd a dyletswydd ansawdd ar fyrddau iechyd, ei bod hi'n credu mai'r bwrdd sy'n gyfrifol am bennu'r naws a'r diwylliant. Dywedodd ei bod am i staff ddod i'r gwaith a gallu gwneud eu gorau, a pheidio â bod ag ofn mewn unrhyw ffordd pe bai pethau'n mynd o chwith. Cydnabu y bydd pethau'n mynd o

chwith ond dywedodd mai'r peth pwysig i'w wneud pan fydd hynny'n digwydd yw cydnabod y camgymeriad, ymddiheuro, ceisio ei unioni a sicrhau gwelliant.

**Conclusion 1.** Ar sail ei pherfformiad a'i hymatebion i gwestiynau yn y gwrandawiad cyn penodi, ni wyddom am unrhyw reswm pam na ddylai Jan Williams, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, gael ei phenodi i swydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

**25.** Dymunwn bob llwyddiant iddi yn y dyfodol ac edrychwn ymlaen at graffu'n adeiladol ar ei gwaith yn ei rôl fel Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn ystod cyfnod y Senedd hon.